**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIAD RHIF 4) 2026**

**HYSBYSIR, DRWY HYN,** fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, wedi gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, a'i effaith fydd diwygio'r cyfyngiadau canlynol yng ngorchymyn (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2024 **(“y Gorchymyn Cydgrynhoi”**), fel y'i diwygiwyd, drwy fewnosod Cynllun Gorchymyn **AG59**, a bydd effaith hyn fel y nodir yn yr Atodlen isod.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn, y Cynlluniau a Datganiad o Reswm y Cyngor dros wneud y Gorchymyn, ar gael drwy gysylltu â naill ai traffictransportation@bridgend.gov.uk neu dros y ffôn drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn**:** 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1678)) neu o'r Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa neu gellir ei archwilio ar-lein ar: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Gwnaed y gorchymyn ar 12/03/2026 a bydd yn dod i rym ar **26/03/2026**. Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd unrhyw Orchymyn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau oherwydd nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf, neu oherwydd nas cydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf neu o unrhyw offeryn a wneir o dan y Ddeddf, caiff y person hwnnw, ymhen chwe wythnos i'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwnnw. Os oes angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn: 01656 643643, cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1678).

**ATODLEN**

**1. CYFLWYNO'R CYFYNGIAD SY'N GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG**

**Clos Wyndham, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr**

(i) Ar ei ochr ogleddol o bwynt 55 metr (60 llath) i'r dwyrain o bwynt gyferbyn ag ochr dde-ddwyreiniol ei gyffordd â Heol Ffaldau, tua'r gorllewin ac yna i'r gogledd am bellter o 114 metr (125 llath).

(ii) Ar ei ochr ddeheuol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Heol Ffaldau, i gyfeiriad y gogledd-orllewin, am bellter o oddeutu 38 metr (42 llath).

(iii) Ar ei ochr ddeheuol, o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Heol Ffaldau, i gyfeiriad y dwyrain, am bellter o oddeutu 57 metr (62 llath).

**Heol Ffaldau, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr**

(i) Ar ei hochr ogledd-orllewinol, o’r gyffordd â Chlos Wyndham, i gyfeiriad y de-orllewin, am bellter o oddeutu 40 metr (44 llath).

(ii) Ar ei hochr dde-orllewinol, o’r gyffordd â Chlos Wyndham, i gyfeiriad y de-orllewin, am bellter o oddeutu 43 metr (47 llath).

**Dyddiedig: 19/03/2026**

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive’s Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.
K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

TRA001-1678 N2